# Cynllun Busnes

2025-26



CYNNWYS

RHAGYMADRODD
YNGLŶN Â CITB
GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH
Y TRI PHILER
Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu
Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol
Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu
HYFFORDDWYR AC ASESWYR
COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL
MESUR LLWYDDIANT
CYLLID



# Mae llwyddiant diwydiant adeiladu Prydain yn effeithio ar bob un ohonom. Mae'n pennu'r cartrefi, y gweithleoedd, a'r cyfleusterau hamdden yr ydym yn eu mwynhau ac yn datblygu'r seilwaith a ddyluniwyd i ysgogi twf a ffyniant.

Er mwyn ffynnu, mae angen y sgiliau cywir ar y diwydiant ar yr adeg gywir. Mae ein Cynllun Strategol 2025-29, a lansiwyd gennym yn gynharach eleni, yn nodi sut y bydd CITB yn cefnogi cyflogwyr i recriwtio, hyfforddi a chadw'r gweithlu sydd ei angen arnynt, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Busnes hwn yn dod â'r strategaeth honno'n fyw, gan amlinellu'r camau ymarferol y byddwn yn eu cymryd i:

- **Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu**
- **Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol**
- **Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi a datblygu ei weithlu.**

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn darparu dull clir, syml o sut y byddwn yn gweithio dros y flwyddyn i ddod i fynd i'r afael â'r heriau sgiliau sy'n wynebu'r diwydiant. Trwy Rwydweithiau Cyflogwyr lleol, byddwn yn grymuso cyflogwyr i nodi'r blaenoriaethau o ran sgiliau a hyfforddiant sydd o bwys iddynt ac ariannu hyfforddiant. Rydym hefyd yn gweithio gydag arweinwyr sector i ddatblygu Cynlluniau Sgiliau Sector i fynd i'r afael â'u hanghenion penodol. Mae'r cynlluniau hyn yn eiddo i'r diwydiant ac yn cael eu llunio ganddynt ac yn cael eu cefnogi'n ariannol gan CITB. Maent yn amlinellu camau gweithredu ac ymyriadau clir i fynd i'r afael â'r heriau sgiliau ym mhob sector.



CYNNWYS

RHAGYMADRODD

YNGLŶN Â CITB

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Y TRI PHILER

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

HYFFORDDWYR AC ASESWYR

COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL

MESUR LLWYDDIANT

CYLLID



Bydd ein Tîm Cymorth i Newydd-ddyfodiaid (NEST) yn parhau i symleiddio mynediad at y system ariannu a sgiliau, gan ei gwneud yn haws i gyflogwyr recriwtio a hyfforddi gweithwyr newydd. Ochr yn ochr â hynny, byddwn yn gweithio i sicrhau bod adeiladu yn cael ei gynrychioli yn natblygiad y system sgiliau ehangach. Bydd datblygu Fframweithiau Cymhwysedd a llwybrau ychwanegol sy'n cysylltu â chymwysterau presennol yn nodi'n glir y sgiliau, y wybodaeth, y profiad a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar y diwydiant gan weithiwr cymwys ar draws yr holl alwedigaethau adeiladu.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i wrando ac ymateb i anghenion y diwydiant a'r Llywodraeth. Mae Llywodraeth y DU wedi addo adeiladu 1.5 miliwn o gartrefi newydd dros bum mlynedd, gan fuddsoddi £600m i hyfforddi 60,000 yn fwy o weithwyr adeiladu medrus. Rydym yn cefnogi hyn gyda chyfraniad o £32m, a fydd yn ariannu dros 40,000 o leoliadau diwydiant bob blwyddyn ar gyfer yr holl ddysgwyr Lefel 2 a Lefel 3, y rhai sy'n astudio NVQ, BTEC, Lefelau T, ac uwch brentisiaethau. Byddwn hefyd yn dyblu maint ein rhaglen NEST i gefnogi BBaChau i recriwtio, ymgysylltu a chadw prentisiaid. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn cyflwyno strategaeth seilwaith deng mlynedd newydd i ysgogi twf economaidd a chyrraedd targedau sero net. Bydd ein gwaith yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan y diwydiant adeiladu'r bobl gywir a'r sgiliau cywir.

Nawr, yn fwy nag erioed, mae cydweithredu yn ganolog i lwyddiant. Mae'r Cynllun hwn yn ymgorffori gweithio mewn partneriaeth ym mhopeth a wnawn. Mae tirwedd esblygol y diwydiant yn gofyn amdano, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraethau cenedlaethol, y Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladu (CLC), Bwrdd Cenhadaeth CLC sydd newydd ei sefydlu, Sefydliadau Rhagnodedig, Ffederasiynau, a'n Cynghorau Cenedl i deilwra ein hymyriadau a diwallu anghenion unigryw cyflogwyr a dysgwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Byddwn hefyd yn gweithio ar draws diwydiant a gydag ECITB ar gynllunio gweithlu strategol, mynd i'r afael â'r prinder hyfforddwyr ac aseswyr, archwilio modelau cymhwysedd, ac ystyried datrysiadau cofrestru fel pasbortau sgiliau.

Rwy'n edrych ymlaen at gyflawni'r Cynllun Busnes hwn, gan nodi blwyddyn gyntaf ein Cynllun Strategol, a chefnogi mwy o gyflogwyr a gweithwyr i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i yrru amgylchedd adeiledig Prydain yn ei flaen.

**TIM BALCON**
Prif Weithredwr

> **Trwy Rwydweithiau Cyflogwyr lleol, byddwn yn grymuso cyflogwyr i nodi'r blaenoriaethau o ran sgiliau a hyfforddiant sydd o bwys iddynt ac ariannu hyfforddiant.**

CYNNWYS

RHAGYMADRODD
YNGLŶN Â CITB
GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH
Y TRI PHILER
Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu
Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol
Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu
HYFFORDDWYR AC ASESWYR
COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL
MESUR LLWYDDIANT
CYLLID

# Pwy ydym ni



## Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) yw'r corff sgiliau a safonau sy'n cael ei arwain a'i ariannu gan gyflogwyr ar gyfer y diwydiant adeiladu ym Mhrydain Fawr, a sefydlwyd ym 1964.

Rydym yn gorfforaeth statudol, yn elusen gofrestredig ac yn gorff cyhoeddus anadrannol, a noddir gan yr Adran Addysg. Mae ein gwaith yn cefnogi diwydiant i ddenu, datblygu a chadw'r gweithlu adeiladu sydd ei angen arno heddiw, ac yfory. Rydym yn cynnal safonau hyfforddiant adeiladu ac yn cadw Prydain yn adeiladu yn ddiogel.







CYNNWYS

RHAGYMADRODD
YNGLŶN Â CITB
GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH
Y TRI PHILER
Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu
Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol
Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu
HYFFORDDWYR AC ASESWYR
COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL
MESUR LLWYDDIANT
CYLLID

# Gwireddu ein gweledigaeth

## Ein pwrpas yw cefnogi'r diwydiant adeiladu i gael gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn helpu gweithleoedd i ddod yn fwy diogel, yn fwy cynhwysol ac yn fwy cynhyrchiol. Mae hyn, yn ei dro, yn helpu i greu a chynnal amgylchedd adeiledig cynaliadwy o safon fyd-eang sydd o fudd i bob un ohonom.

**Mae ein gweledigaeth yn syml:** Darparu gweithlu cymwys a chynhyrchiol (gwaredu'r bwlch sgiliau). Gwyddom fod yn rhaid i ni newid y system sgiliau a hyfforddiant er mwyn cyflawni hyn. Ond ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain; mae arnom angen diwydiant a rhanddeiliaid allweddol i chwarae eu rhan. Mae gan CITB sefyllfa unigryw i helpu i gyflawni hyn, gan wrando ar gyflogwyr, gweithio gyda Llywodraethau, a defnyddio'r adnoddau a ddarperir gan Lefi'r diwydiant yn effeithiol i arwain y trawsnewid.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, mae angen inni fod â ffocws a bod yn hyblyg, yn barod i ymateb i heriau a chyfleoedd diwydiant. Mae ein gwerthoedd craidd yn ein helpu i greu'r dyfodol yr ydym am ei brofi.




## EIN GWERTHOEDD CRAIDD

### CYDWEITHREDOL
Rydym yn gwrando ac yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni ar gyfer diwydiant.

### CYSON
Rydym yn deall blaenoriaethau cyflogwyr ac yn parhau i ganolbwyntio ar eu cyflawni.

### ATEBOL
Rydyn ni'n cyflawni'r hyn rydyn ni'n dweud rydyn ni'n mynd i'w gyflawni.

### CYNHWYSOL
Nid ydym yn gadael unrhyw un ar ôl ac yn cynnwys pob grŵp.

CYNNWYS

RHAGYMADRODD
YNGLŶN Â CITB
GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH
Y TRI PHILER
Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu
Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a’r dyfodol
Cefnogi’r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu
HYFFORDDWYR AC ASESWYR
COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL
MESUR LLWYDDIANT
CYLLID

# Goresgyn heriau diwydiant, gyda'n gilydd

## Mae cydweithredu yn hanfodol i ddatrys heriau sgiliau a hyfforddiant y diwydiant.

Mae angen i'r diwydiant adeiladu ddenu a chadw mwy o dalent, ac mae angen iddo allu manteisio ar arferion gwaith modern sy'n sicrhau bod y diwydiant yn fwy cynhyrchiol, tra hefyd yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol. Mae ymrwymiad y Llywodraeth i dwf, yn ogystal â diwygio’r system sgiliau a hyfforddiant, yn cynnig cyfle i’r diwydiant gydweithio. Bydd CITB yn gweithio gyda Llywodraethau a chyflogwyr ledled y DU i ysgogi newid ystyrlon.




### GRYMUSO CYDWEITHWYR

Dylai cyflogwyr fod wrth wraidd penderfyniadau am eu hanghenion sgiliau. Dyna pam mae ein Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr diwydiant o fusnesau o bob maint. Mae ein Cynghorau Cenedl ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban yn cyfarfod bob chwarter i sicrhau ein bod yn clywed yn uniongyrchol sut mae anghenion hyfforddi yn esblygu ym mhob gwlad a sector. Rydym hefyd wedi cynyddu cynrychiolaeth cyflogwyr a diwydiant ar ein Cynghorau ac is-bwyllgorau Bwrdd.

Mae ein Timau Ymgysylltu â Chwsmeriaid yn gweithredu ym mhob rhanbarth a chenedl ym Mhrydain Fawr. Maent yn cefnogi pob cyflogwr, o fusnesau bach a chanolig i gyflogwyr mwy, i gael mynediad at gynnyrch a gwasanaethau, yn ogystal â deall beth yw eu hanghenion ac a ydynt yn cael eu diwallu.

Mae CITB yn ariannu 33 o Rwydweithiau Cyflogwyr i roi ffordd syml i gyflogwyr gael mynediad at hyfforddiant a chyllid. Maent hefyd yn galluogi cyflogwyr i ddweud eu dweud am gyllid ar gyfer hyfforddiant i fynd i’r afael ag anghenion sgiliau yn awr ac yn y dyfodol yn eu rhanbarth, fel bod hyfforddiant a chymorth ariannol yn cael eu targedu at anghenion penodol rhanbarth daearyddol.



CYNNWYS

RHAGYMADRODD

YNGLŶN Â CITB

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Y TRI PHILER

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

HYFFORDDWYR AC ASESWYR

COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL

MESUR LLWYDDIANT

CYLLID



# Goresgyn heriau diwydiant, gyda'n gilydd

## GWRANDO AC YMATEB I ANGHENION Y SECTORAU ADEILADU

Mae ein 14 Sefydliad Rhagnodedig yn cynrychioli barn cyflogwyr a sectorau ym maes adeiladu, gan sicrhau ein bod yn clywed yr hyn sydd bwysicaf. Rydym hefyd yn cydweithio gyda grwpiau ar draws y diwydiant, megis y Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladu, fel y gallwn nodi anghenion sgiliau a hyfforddiant sy'n dod i'r amlwg yn gyflym.

Trwy Gynlluniau Sgiliau Sector, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â diwydiant, rydym yn creu atebion wedi'u teilwra i fynd i'r afael â heriau pob sector. Mae CITB yn ariannu'r ymyriadau sydd eu hangen i wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

## GWEITHIO GYDA LLYWODRAETH Y DU A LLYWODRAETHAU CENEDLAETHOL

Bydd ein gwaith yn ymdrechu i fodloni blaenoriaethau Llywodraeth y DU, gan gynnwys ei hymrwymiad i adeiladu 1.5 miliwn o gartrefi ar draws y Senedd hon. Mae CITB yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth y DU a'r Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol (NHBC) i sefydlu hybiau Sgiliau Adeiladu Tai newydd, gan ddarparu hyfforddiant wedi'i dargedu mewn crefftau hanfodol fel gwaith sylfaen, gwaith coed ar y safle a gosod brics - lle mae angen 26,000 yn fwy o weithwyr ar frys. Yn ogystal â hyn rydym wedi ymrwymo £32m arall i ariannu dros 40,000 o leoliadau diwydiant bob blwyddyn ar gyfer yr holl ddysgwyr Lefel 2 a Lefel 3, y rhai sy'n astudio NVQ, BTEC, Lefelau T, ac uwch brentisiaethau.

Mae ein Cynlluniau Cenedl blynyddol yn ategu'r Cynllun Busnes hwn. Cânt eu cefnogi gan ein Cynghorau Cenedl ac maent yn cynnwys ymyriadau a phrosiectau penodol ar gyfer pob cenedl yn unol â'n tair blaenoriaeth. Maent hefyd yn cynnwys rhagor o fanylion am ein gwaith gyda Llywodraethau cenedlaethol i ymateb i wahanol anghenion a heriau o ran sgiliau adeiladu a hyfforddi ym mhob gwlad.

## PARU AG ECITB

Mae adeiladu a pheirianneg yn wynebu rhai heriau tebyg ac maent ill dau yn ddiwydiannau hanfodol ar gyfer datblygu a chyflawni prosiectau seilwaith mawr – catalydd allweddol ar gyfer twf ym Mhrydain. Bydd ein gwaith partneriaeth ehangach dros y flwyddyn i ddod yn cynnwys pum maes allweddol:

- **Piblinell seilwaith** – rydym yn rhannu diddordeb cyffredin mewn sicrhau'r piblinell o bobl fedrus i gwblhau prosiectau seilwaith mawr. Bydd y gynghrair hon yn cael ei chryfhau i fynd i'r afael ag anghenion y sector a chefnogi'r gwaith o gyflawni Piblinell Seilwaith Cenedlaethol y Llywodraeth fesul prosiect
- **Cynllunio'r gweithlu** – byddwn yn cymharu methodolegau ac yn nodi'r dull gorau o ddatblygu cynllun gweithlu strategol mwy cynhwysfawr i fynd i'r afael â'r heriau o ran cadw a defnyddio ar draws ein sectorau, gan nodi lle byddai dull cyfunol o fudd
- **Modelau cymhwysedd** – mae CITB ac ECITB ill dau yn gweithio ar ddatblygu system seiliedig ar gymhwysedd a fydd yn galluogi gwell llwybrau gyrfa a chaffael sgiliau ar draws ein sectorau. Fel rhan o hyn byddwn yn archwilio'r cyfle i unigolion gael cymhwysedd ar draws adeiladu a pheirianneg adeiladu i hwyluso gwell defnydd o sgiliau ar brosiectau. Gallai'r gwaith hwn fod yn sail i system pasbort sgiliau
- **Hyfforddwyr ac aseswyr** – yn ogystal â'n hymrwymiad i Gynllun Peilot Proffesiynol Deuol yr Adran Addysg, byddwn yn parhau i archwilio'r her, rhannu ymchwil, gwerthuso a mewnwelediadau a nodi cyfleoedd pellach ar gyfer cynlluniau peilot cydgysylltiedig
- **Sgiliau gwyrdd** – byddwn yn adeiladu ar ein gwaith gyda'r Adran dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ) a phrofiad ECITB o adeiladu 'sgiliau gwyrdd' mewn galwedigaethau unigol, gan benderfynu sut i symud y tu hwnt i ragweld y sgiliau newydd sydd eu hangen.

CYNNWYS

RHAGYMADRODD
YNGLŶN Â CITB
GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH
Y TRI PHILER
Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu
Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol
Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu
HYFFORDDWYR AC ASESWYR
COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL
MESUR LLWYDDIANT
CYLLID

# Y tri philer

## Eleni yw blwyddyn gyntaf ein Cynllun Strategol newydd 2025-29.

Mae'r Cynllun Strategol yn nodi ein hymagwedd strategol a sut y bydd CITB, mewn cydweithrediad â diwydiant a Llywodraethau cenedlaethol, yn cefnogi anghenion sgiliau adeiladu a hyfforddiant am y pedair blynedd nesaf. Mae'r holl weithgareddau a nodir yn y Cynllun Busnes hwn ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cysylltu â'n hymagwedd strategol ar gyfer pob un o'r pileri.

Rydym wedi gwrando ar gyflogwyr adeiladu, darparwyr hyfforddiant a rhanddeiliaid fel rhan o'n Cynllun Strategol, ac mae'r Cynllun Busnes hwn yn nodi sut y byddwn yn ymateb i fynd i'r afael â'u hanghenion yn 2025-26. Mae tri philer y Cynllun wedi'u datblygu i fynd i'r afael â'r prif flaenoriaethau y mae'r diwydiant am i CITB ganolbwyntio arnynt; cael mwy o bobl hyfforddedig i mewn i ddiwydiant, sicrhau bod hyfforddiant perthnasol o ansawdd da ar gael ar yr amser a'r lle cywir, a gwella sgiliau'r gweithlu presennol.

**GWELEDIGAETH**
Darparu gweithlu cymwys a chynhyrchiol (gwaredu'r bwlch sgiliau)

**DIBEN**
Cefnogi'r diwydiant adeiladu i ddatblygu gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol nawr ac yn y dyfodol

**BYDD EIN GWAITH YN CANOLBWYNTIO AR DRI PHILER EIN CYNLLUN:**

1. Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i fyd adeiladu
2. Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol
3. Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

**SUT BYDDWN YN MESUR LLWYDDIANT EIN GWAITH**

- Cynnydd o 5% yn nifer y newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant
- Cynnydd o 6% yn nifer y cyflogwyr a gefnogir i hyfforddi ac uwchsgilio eu gweithlu
- Cynnydd o 2% yn nifer yr unigolion a gefnogir i hyfforddi ac uwchsgilio

**BYDD POPETH A WNAWN YN CAEL EI DANATEGU GAN EIN GWERTHOEDD**

CYDWEITHREDOL | CYSON | ATEBOL | CYNHWYSOL

CYNNWYS

RHAGYMADRODD
YNGLŶN Â CITB
GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH
Y TRI PHILER
Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu
Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol
Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu
HYFFORDDWYR AC ASESWYR
COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL
MESUR LLWYDDIANT
CYLLID

PILER UN

# Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu

## Mae angen i'r diwydiant adeiladu ddenu a chadw mwy o newydd-ddyfodiaid i leihau'r bwlch sgiliau.

Fodd bynnag, mae cystadleuaeth am dalent yn cynyddu ar draws pob diwydiant, gan ei gwneud yn fwy heriol i recriwtio'r gweithlu medrus sydd ei angen i fodloni gofynion adeiladu Prydain.

Mae ein Cynllun yn canolbwyntio ar ddenu ystod ehangach o newydd-ddyfodiaid, cynyddu'r gronfa recriwtio, a sicrhau bod dysgwyr yn gallu symud ymlaen o gyrsiau coleg i waith. Byddwn yn rhoi pwyslais pellach ar AB yn unol â blaenoriaethau a buddsoddiad y Llywodraeth, gan weithio mewn partneriaeth â'r Llywodraeth, colegau a diwydiant i sicrhau bod gan newydd-ddyfodiaid y sgiliau a'r profiad i'w gwneud yn barod i'r safle ac yn gyflogadwy.

Nod ein gweithgareddau ar gyfer eleni yw cael gwared ar y rhwystrau i ddenu talent newydd a darparu cymorth mwy uniongyrchol i gyflogwyr recriwtio a chadw'r bobl sydd eu hangen arnynt.

RHAGYMADRODD

YNGLŶN Â CITB

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Y TRI PHILER

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

HYFFORDDWYR AC ASESWYR

COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL

MESUR LLWYDDIANT

CYLLID

# Ein gweithgareddau ar gyfer 2025-26

## GRANTIAU PRENTISIAETH

Cynnal **grantiau prentisiaeth** ar gyfer newydd-ddyfodiaid, gan gynnwys Grantiau Presenoldeb chwarterol a Grant Cyflawniad ar ôl cwblhau.



## GRANT I MEWN I WAITH

Bydd y Grant i Mewn i Waith, sy'n talu **£500 i gyflogwyr ar gyfer dysgwyr sy'n cwblhau profiad gwaith** ar gyrsiau addysg bellach (AB), a £1,000 pellach os byddant yn sicrhau o leiaf dri mis o gyflogaeth barhaus, yn cael ei **ymestyn i ddechrau tan fis Tachwedd 2025.**

## TEITHIO I HYFFORDDI

Bydd y Grant Teithio i Hyfforddi yn parhau i gefnogi dysgwyr a chyflogwyr **gyda chostau llety a theithio.**

## ASESU AC ADDASU

Annog hyfforddiant a datblygu cymhellion grant i gefnogi cyflwyno **llwybrau hyfforddi ychwanegol.**

## LLEOLIADAU DIWYDIANT

Ariannu **dros 40,000** o leoliadau diwydiant bob blwyddyn ar gyfer pob dysgwr Lefel 2 a Lefel 3, y rhai sy'n astudio NVQ, BTEC, Lefelau T, ac uwch brentisiaethau.

## EHANGU NEST

Gweithredu ac ehangu'r NEST ar draws Prydain Fawr i gefnogi cyflogwyr i **recriwtio newydd-ddyfodiaid**, helpu i gael grantiau a sicrhau hyfforddiant addas. Byddant hefyd yn parhau i gefnogi cyflogwyr i gadw newydd-ddyfodiaid nes iddynt ennill eu cymhwyster.

## HYBIAU PROFIAD AR Y SAFLE

Parhau i gefnogi'r naw hyb CITB presennol ar draws Prydain Fawr, sy'n darparu **datrysiad recriwtio un-stop**, sy'n cysylltu cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant, awdurdodau lleol, a phartneriaid eraill i gefnogi oedolion i gwblhau hyfforddiant a dechrau cyflogaeth barhaus.

## HYBIAU ADEILADU CARTREFI

Lansio hyd at 32 o hybiau Adeiladu Cartrefi newydd gyda NHBC i fynd i'r afael â'r cyfnodau brig yn y galw a gynhyrchir gan y **twf disgwyliedig mewn adeiladu cartrefi** yn Lloegr yn y blynyddoedd i ddod.



CYNNWYS

RHAGYMADRODD

YNGLŶN Â CITB

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Y TRI PHILER

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

HYFFORDDWYR AC ASESWYR

COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL

MESUR LLWYDDIANT

CYLLID



# Ein gweithgareddau ar gyfer 2025-26

### HYBIAU NEWYDD

Datblygu hybiau pwrpasol i gwrdd ag anghenion sector neu brosiect mawr mewn meysydd **lle na all cyflenwad hyfforddiant ddiwallu'r galw.**

### GWYBODAETH GYRFAOEDD

Parhau i ddarparu gwybodaeth gyrfaoedd digidol hunanwasanaeth am ddim trwy ein **gwefan Am Adeiladu**, gan gynnig arweiniad ac ysbrydoliaeth i'r rhai sy'n ystyried gyrfaoedd ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig.

### CREU CYSYLLTIADAU

Bydd Am Adeiladu yn cael ei ehangu trwy ychwanegu gwasanaeth sy'n cysylltu pobl yn uniongyrchol â **chefnogaeth leol a chyfleoedd hyfforddi.**



### YMGYSYLLTU Â PHOBL IFANC

Gwella'r rhaglenni SkillBuild a Llysgennad STEM Am Adeiladu trwy dreialu gwelliannau a datblygu deunyddiau i **ymgysylltu â phobl ifanc.** Mae hyn yn cynnwys creu deunyddiau addysgu ac asesu wedi'u teilwra i ystod amrywiol o ddechreuwyr.

### GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Gweithio'n agosach gyda Llysgenhadon STEM, colegau a phartneriaid rhwydwaith lleol i wella cyrhaeddiad ac effeithiolrwydd **hyrwyddo gyrfaoedd adeiladu.**



### ADDYSG BELLACH

Treialu ffyrdd newydd o weithio gyda darparwyr addysg bellach a chyflogwyr, yn bennaf trwy ein **Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant newydd a Grwpiau Cynghori Sgiliau Sector**, a fydd yn cael eu harwain gan ddiwydiant.

### YMAGWEDDAU NEWYDD

Adeiladu ar gytundebau newydd gyda sefydliadau partner, megis DWP, byddwn yn creu llwybrau a chysylltu unigolion o **gefndiroedd amrywiol** â chyfleoedd addas, gan ehangu'r gronfa o ddarpar ymgeiswyr.

### LLWYBRAU YCHWANEGOL

Cynnal gwaith ymgynghori a dylunio pellach i danategu'r set gyntaf o 37 o lwybrau ychwanegol. Bydd y rhain yn cynnwys rhaglenni hyfforddi ac asesu strwythuredig a fydd yn cyd-fynd â phrentisiaethau i ddod â newydd-ddyfodiaid ychwanegol a mwy amrywiol i **lefel drosglwyddadwy o gymhwysedd.**

CYNNWYS

RHAGYMADRODD

YNGLŶN Â CITB

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Y TRI PHILER

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

HYFFORDDWYR AC ASESWYR

COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL

MESUR LLWYDDIANT

CYLLID



PILER DAU

# Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

## Nid yw'r system sgiliau bob amser yn gweithio i lawer o gyflogwyr adeiladu.

Maent yn aml yn dweud wrthym ei fod yn gymhleth ac yn anodd ei lywio. Ychydig o lwybrau amgen sydd ganddi ac nid yw'n ddigon ystwyth i ymateb i'r galw cynyddol am fedrau a hyfforddiant.

Byddwn yn cryfhau ein perthynas â darparwyr hyfforddiant ac yn eu helpu i fynd i'r afael â rhwystrau i ddarparu hyfforddiant.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraethau cenedlaethol i sicrhau bod sgiliau adeiladu yn cael eu blaenoriaethu mewn polisïau a mentrau newydd. Rydym hefyd yn cynyddu maint ein Tîm Cymorth i Newydd-ddyfodiaid i helpu cyflogwyr i sicrhau eu cyflenwad o dalent i gadw eu busnes i dyfu. Yn ogystal â hyn, bydd Rhwydweithiau Cyflogwyr a Chynlluniau Sgiliau Sector yn grymuso cyflogwyr i wneud penderfyniadau ariannu ar gyfer hyfforddiant, yn seiliedig ar anghenion y diwydiant.

RHAGYMADRODD

YNGLŶN Â CITB

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Y TRI PHILER

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

HYFFORDDWYR AC ASESWYR

COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL

MESUR LLWYDDIANT

CYLLID


# Ein gweithgareddau ar gyfer 2025-26

### CEFNOGI'R LLYWODRAETH
Gweithio gyda Llywodraethau'r DU, yr Alban a Chymru i ddatblygu eu **sgiliau a'u systemau hyfforddi**, gan ganolbwyntio ar ariannu colegau AB a darpariaeth hyfforddiant adeiladu.

### RHWYDWAITH DARPARWYR HYFFORDDIANT
Lansio **Rhwydwaith Darparwr Hyfforddiant** newydd yn yr haf, gan ddatblygu arferion gwaith a hyrwyddo manteision y Rhwydwaith gyda darparwyr, rhanddeiliaid a chyflogwyr.

### DPP
Cynnig **Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)** a chefnogaeth i hyfforddwyr ac aseswyr trwy'r Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant.

### FFRAMWEITHIAU NEWYDD
Datblygu **Fframweithiau Cymhwysedd** wedi'u dylunio gan y diwydiant a 37 o lwybrau ychwanegol.



### SKILLS ENGLAND
Cefnogi sefydlu **Skills England** i sicrhau bod newidiadau i'r system sgiliau a hyfforddiant ehangach yn nodi ac yn cynyddu nifer y dechreuwyr i adeiladu.

### CYDWEITHIO
Cynyddu aelodaeth ein **33 Rhwydwaith Cyflogwyr a Grwpiau Hyfforddiant** ar draws Prydain Fawr, gan sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio at lefel leol.

### PARTNERIAETHAU
Partneru gyda'r Adran Addysg ac ECITB i archwilio prosiectau newydd a **chryfhau cysylltiadau rhwng diwydiant a'r sector addysg.**

### LLEIHAU RHWYSTRAU
Nodi methodolegau hyfforddi ac asesu effeithiol sy'n **lleihau rhwystrau i ddysgwyr** a chyflogwyr wrth fynd i'r afael â phrinder hyfforddwyr ac aseswyr.



CYNNWYS

RHAGYMADRODD

YNGLŶN Â CITB

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Y TRI PHILER

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

HYFFORDDWYR AC ASESWYR

COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL

MESUR LLWYDDIANT

CYLLID



# Ein gweithgareddau ar gyfer 2025-26

## ADEILADU CARTREFI

Gweithio gyda'r **Bartneriaeth Sgiliau Sector Adeiladu Cartrefi** i weithredu'r blaenoriaethau sgiliau a hyfforddiant y mae'r sector wedi'u nodi yn eu Cynllun Sgiliau Sector, gan gynnwys ehangu hybiau Adeiladu Cartrefi a chefnogi'r cyflenwad o brentisiaethau hyblyg.

## SEILWAITH

Bydd y **Cynllun Sgiliau Sector Seilwaith** yn dechrau gweithio i ddiwallu anghenion sgiliau cyflogwyr yn y sector seilwaith.

## CYNLLUNIAU SGILIAU SECTOR NEWYDD

Cefnogi **Cynlluniau Sgiliau Sector** newydd ar gyfer y sector atgyweirio, cynnal a chadw a gwella (RMI), yn ogystal â'r sector masnachol, cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai, diwydiannol a phreswyl uchel (CPIH).





CYNNWYS

RHAGYMADRODD
YNGLŶN Â CITB
GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH
Y TRI PHILER
Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu
Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol
Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu
HYFFORDDWYR AC ASESWYR
COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL
MESUR LLWYDDIANT
CYLLID

PILER TRI

# Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

## Rhaid mai cymhwysedd y gweithlu adeiladu cyfan, o'r cwmnïau mwyaf i'r cwmnïau lleiaf, yw ein prif nod.

Mae ei angen i sicrhau bod y diwydiant yn gweithredu'n ddiogel, yn effeithiol ac yn barod am y dyfodol.

Ni fydd yr heriau sgiliau yn cael eu datrys gan newydd-ddyfodiaid yn unig - rhaid inni sicrhau ein bod yn cadw mwy o'r gweithlu adeiladu. Drwy gydbwyso anghenion hyfforddi newydd-ddyfodiaid gyda datblygiad y gweithlu a gwelliannau cynhyrchiant, gallwn sicrhau dyfodol y sector adeiladu wrth wneud y mwyaf o botensial ei dalent presennol.

CYNNWYS

RHAGYMADRODD
YNGLŶN Â CITB
GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH
Y TRI PHILER
Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu
Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol
Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu
HYFFORDDWYR AC ASESWYR
COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL
MESUR LLWYDDIANT
CYLLID

# Ein gweithgareddau ar gyfer 2025-26

### FFRAMWEITHIAU CYMHWYSEDD
Ehangu Fframweithiau Cymhwysedd i gwmpasu galwedigaethau ychwanegol, gan ddiffinio'r sgiliau, y wybodaeth, y profiad a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar gyfer **cymhwysedd o safon diwydiant.**

### LLWYBRAU
Datblygu **37 llwybr** o fewn yr amgylchedd adeiledig a threialu pum llwybr a ddatblygwyd yn flaenorol.

### ALINIO HYFFORDDIANT
Ymgysylltu â Skills England, Medr, a Skills Development Scotland i archwilio **alinio prentisiaethau a chymwysterau** â Fframweithiau Cymhwysedd.

### SAFONAU A CHYMWYSTERAU
Fel y Corff Pennu Safonau, byddwn yn sicrhau bod yr holl Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, Safonau Cyrsiau Byrion, NVQs/SVQs a phrentisiaethau yng Nghymru a'r Alban **yn gyfredol ac yn addas i'r diben.** Bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd, lle bynnag y bo modd, â datblygiad Fframweithiau Cymhwysedd.

### LLWYBRAU MYNEDIAD
Cydweithio â rhanddeiliaid i sicrhau bod llwybrau mynediad yn **datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar y diwydiant.**



### MAPIAU HYFFORDDIANT
Cyhoeddi a chynnal mapiau cymwysterau a hyfforddiant ar gyfer galwedigaethau â blaenoriaeth, gan gynnwys gosod brics ac insiwleiddio a thriniaethau adeiladau. Bydd hyn yn galluogi cyflogwyr ac unigolion i **nodi cyfleoedd dilyniant a gofynion cymhwysedd** ar gyfer rolau penodol.

### CYMHELLION GRANT
Ymgynghori â diwydiant i **ddatblygu cymhellion grant** sy'n cefnogi cyflwyno llwybrau ychwanegol. Bydd hyn yn cynnwys cymhelliad grant cyflogwr (fel gyda phrentisiaethau) a chyfraniad at gost hyfforddiant sy'n ymwneud â chymhwysedd, a bydd yn cael ei gyflwyno pan fydd llwybrau ychwanegol ar waith.

### SAFONAU PEIRIANNAU
Parhau i ddatblygu safonau hyfforddi a fydd yn cefnogi'r sector peiriannau trwy **gynyddu ei fynediad i hyfforddiant** gyda chymorth ychwanegol gan CITB.



CYNNWYS

RHAGYMADRODD
YNGLŶN Â CITB
GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH
Y TRI PHILER
Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu
Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol
Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu
HYFFORDDWYR AC ASESWYR
COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL
MESUR LLWYDDIANT
CYLLID

# Ein gweithgareddau ar gyfer 2025-26

### GRONFA EFFAITH AR DDIWYDIANT

Cefnogi cyflogwyr i gyflawni prosiectau effeithiol sy'n mynd i'r afael â themâu megis cynhyrchiant a sero net drwy'r Gronfa Effaith ar Ddiwydiant. Wedi'i harwain gan gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gyda'r Lefi, nod y Gronfa yw cyflawni **ymyriadau graddadwy a chynaliadwy i** gynyddu cynhyrchiant ar draws y diwydiant.

### GWELLA CYNHYRCHEDD

Cefnogi'r **Fenter Gwneud Pethau'n Iawn (GIRI)** ochr yn ochr â chontractwyr mawr i wella cynhyrchiant drwy leihau gwastraff a chyfraddau gwallau ar y safle.



### ADNODDAU

Ehangu cymorth ar gyfer **hyfforddiant â mynediad am ddim** i gyflogwyr ar degwch, cynhwysiant a pharch (FIR), trwy ddatblygu deunyddiau sy'n canolbwyntio ar gwmnïau adeiladu micro, bach a chanolig.

### CWRDD Â'R GALW

Monitro anghenion hirdymor y diwydiant a **sicrhau bod hyfforddiant ar gael** i ateb y galw mewn meysydd fel sero net a dulliau modern o adeiladu o fewn y cwmpas.

### ALINIO

Gweithio'n agos gyda Llywodraethau cenedlaethol i sicrhau bod eu cyllid yn cyd-fynd ag **anghenion sgiliau a hyfforddiant** y diwydiant.





CYNNWYS

RHAGYMADRODD

YNGLŶN Â CITB

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Y TRI PHILER

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

HYFFORDDWYR AC ASESWYR

COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL

MESUR LLWYDDIANT

CYLLID



# Mynd i'r afael â'r her o hyfforddwyr ac aseswyr

## Mae recriwtio a chadw hyfforddwyr ac aseswyr medrus sydd â'r doniau a'r agweddau cywir ar gyfer y rôl yn her hollbwysig i'r sectorau adeiladu ac addysg.

Mae'r her yn amlochrog ac er mwyn gweithio i fynd i'r afael â hi byddwn yn:

- **Cydweithio â'r diwydiant adeiladu a darparwyr hyfforddiant i ddatblygu cyfleoedd recriwtio a hyfforddi sydd eu hangen i leihau prinder hyfforddwyr ac aseswyr**
- **Gweithio gydag ECITB a'r Adran Addysg i dreialu'r prosiect Model Proffesiynol Deuol a fydd yn annog datblygu perthnasoedd strategol agosach rhwng darparwyr hyfforddiant a chwmnïau adeiladu a chymorth gyda chost hyfforddiant a chostau rhyddhau gweithwyr adeiladu proffesiynol a masnachwyr i gyfrannu at leoliadau addysg**
- **Cefnogi hyfforddwyr ac aseswyr presennol gyda chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus**
- **Buddsoddi mewn dulliau arloesol i fynd i'r afael â'r her i hyfforddwyr ac aseswyr trwy gymorth ariannol Cronfa Effaith ar Ddiwydiant. Bydd prosiectau yn cael eu hariannu hyd at £500,000 yr un a gallant gwmpasu unrhyw agwedd ar yr her gan gynnwys gweithgareddau i hybu cadw neu gynhyrchiant yn y system sgiliau**
- **Datblygu prosiect i gefnogi'r rhai sy'n ystyried newid gyrfa neu yrfa bortffolio yn gynnar yn eu gyrfaoedd adeiladu**
- **Parhau i hyfforddi aseswyr mewn meysydd arbenigol trwy'r Ganolfan Achrededig Arbenigol Genedlaethol (NSAC).**



CYNNWYS

RHAGYMADRODD

YNGLŶN Â CITB

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Y TRI PHILER

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol


Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

HYFFORDDWYR AC ASESWYR

COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL

MESUR LLWYDDIANT

CYLLID



# Buddsoddiad a thwf

## Ein gweledigaeth ar gyfer y Coleg Adeiladu Cenedlaethol (NCC) yw cynhyrchu gwerth sylweddol i'r diwydiant adeiladu drwy ehangu ein harlwy hyfforddi, darparu addysgu o ansawdd uchel a chymorth i ddysgwyr, yn ogystal â chydweithio â'r diwydiant ehangach i wneud y mwyaf o'n heffaith.

I gyflawni hyn, rydym yn buddsoddi mewn ehangu ein darpariaeth hyfforddiant ar draws tri safle'r Coleg, gan gyflwyno cynnydd yn ystod a nifer y cyfleoedd prentisiaeth a hyfforddiant masnachol i ddiwydiant. Mae ein cyfraddau cyflawni prentisiaethau eisoes yn uchel iawn ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn yr Alban, fe wnaethom orffen blwyddyn gontract 2024-25 gyda 77% ac yn Lloegr ar gyfer 2023-24, y flwyddyn gytundebol lawn ddiwethaf, fe wnaethom gyflawni 80.2%.

Eleni, byddwn yn buddsoddi dros £15m yn ein hystâd NCC, gyda chynaliadwyedd wrth wraidd gwella seilwaith y Colegau. Bydd gwaith yn dechrau eleni ar ein safle yn Erith, gan gynnwys gwaith dymchwel a gwaith paratoi ar gyfer ailadeiladu llawn arfaethedig o'r safle. Bydd y buddsoddiad cyfalaf hwn, ynghyd â'n buddsoddiad parhaus yn ein gallu – ein pobl, ein prosesau cyflwyno a'n technoleg – yn gwella profiad dysgwyr a phrentisiaid ac yn ein galluogi i ddiwallu anghenion sgiliau'r diwydiant yn well.

Wrth fuddsoddi yn ein hystâd hyfforddi, byddwn yn parhau i:

- **Cynnal darpariaeth uniongyrchol mewn ystod o feysydd, gan gynnwys gwaith daear, peiriannau, leinin sych, sgaffaldiau, a mynediad**
- **Rheoli contractau prentisiaeth yn yr Alban trwy ddarparwyr Albanaidd a'r NCC**
- **Cefnogi diwydiant trwy ddarparu ystod ehangach o brentisiaethau o ansawdd a rhaglenni hyfforddi eraill yn yr NCC yn y meysydd mwyaf anghenus.**



1 / 1

# Cyflinio â'n Cynllun Strategol

RHAGYMADRODD

YNGLŶN Â CITB

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Y TRI PHILER

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

HYFFORDDWYR AC ASESWYR

COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL

MESUR LLWYDDIANT

CYLLID

## Byddwn yn mesur ein cyflawniad o'r Cynllun Busnes hwn yn erbyn cyfres o fesurau perfformiad sy'n cyd-fynd â'r tri philer yn ein Cynllun Strategol.

Bydd y system fesur hon yn rhoi'r gallu i olrhain cynnydd yn erbyn ein gweledigaeth a'n diben a bydd yn nodi lle mae angen i ni addasu ein cynlluniau i wella ein perfformiad er mwyn cyflawni ar gyfer y diwydiant adeiladu.

**Mae ein mesurau yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r diwydiant, sef:**

1. Cael mwy o bobl hyfforddedig i mewn i ddiwydiant, sef y brif flaenoriaeth i CITB

2. Sicrhau bod hyfforddiant perthnasol o ansawdd da ar gael ar yr amser ac yn y lle iawn

3. Gwella sgiliau'r rhai sydd eisoes yn y gweithlu.

Bydd ein holl weithgareddau ac ymyriadau yn cyfrannu at gyflawni o leiaf un o'r tri mesur isod:

Cynnydd o **5%** yn nifer y newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant

Cynnydd o **6%** yn nifer y cyflogwyr a gefnogir i hyfforddi ac uwchsgilio eu gweithlu

Cynnydd o **2%** yn nifer yr unigolion a gefnogir i hyfforddi ac uwchsgilio

* Ategir y mesurau hyn gan reolaeth perfformiad gadarn a fframwaith mesur effaith manylach.

CYNNWYS

RHAGYMADRODD

YNGLŶN Â CITB

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Y TRI PHILER

Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu

Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

HYFFORDDWYR AC ASESWYR

COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL

MESUR LLWYDDIANT


CYLLID

# Buddsoddiadau â blaenoriaeth

## Mae ein strategaeth ariannol yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau y mae cyflogwyr adeiladu wedi gofyn inni eu cyflawni.

Mae'r gyfran fwyaf o fuddsoddiad yn y piler 'ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu', sy'n cynnwys y grant prentisiaeth a delir. Dyma'r maes y mae cyflogwyr wedi dweud wrthym sydd bwysicaf iddyn nhw.

Yn gyson â blynyddoedd blaenorol, rydym yn bwriadu darparu ein cymorth i ddiwydiant yn y modd mwyaf cost effeithiol ac effeithlon gan gynnwys, fel yr argymhellwyd yn Adolygiad yr ITB, sicrhau o leiaf 5% mewn enillion effeithlonrwydd blynyddol tan yr Adolygiad nesaf.




DYRANIADAU ARIANNOL I FLAENORIAETHAU CYFLOGWYR ADEILADU

- Ysbrydoli a Galluogi
- Datblygu a Chadw
- System Sgiliau
- Costau Corfforaethol

| LEFI | 2024-25 (£m) | 2025-26 (£m) | 2026-27 (£m) | 2027-28 (£m) | 2028-29 (£m) |
|---|---|---|---|---|---|
| Incwm y lefi | 215.3 | 225.3 | 235.0 | 242.1 | 253.2 |
| Incwm di-lefi | 51.6 | 45.6 | 47.5 | 49.5 | 50.3 |
| Defnydd o gronfeydd wrth gefn | 13.3 | 18.3 | (5.8) | (10.8) | (16.5) |
| **Cyfanswm incwm** | **280.2** | **289.1** | **276.8** | **280.8** | **287.0** |
| **GRANTIAU** | | | | | |
| Prentisiaethau | 75.7 | 70.9 | 75.4 | 84.6 | 90.2 |
| Cymwysterau | 18.6 | 18.8 | 17.3 | 19.0 | 19.0 |
| Cyrsiau byrion | 28.9 | 28.2 | 21.0 | 18.0 | 17.9 |
| **Cyfanswm grantiau** | **123.2** | **117.9** | **113.7** | **121.5** | **127.0** |
| **CYLLID I GEFNOGWYR** | | | | | |
| Cyllid cefnogi cyflogwyr a diwydiant | 15.3 | 10.4 | 4.0 | 4.0 | 4.0 |
| Ymyriadau a ariennir | 25.9 | 32.1 | 31.1 | 27.1 | 21.3 |
| **Cyfanswm ariannu cyflogwyr** | **164.5** | **160.4** | **148.8** | **152.7** | **152.3** |
| **GWARIANT NAD YW'N ARIAN** | | | | | |
| Tîm ymgysylltu | 13.0 | 14.7 | 15.2 | 14.7 | 15.2 |
| Rheoli cynnyrch | 19.9 | 21.8 | 24.0 | 24.2 | 24.3 |
| NCC | 23.2 | 28.5 | 27.4 | 28.1 | 28.7 |
| Prentisiaethau | 21.8 | 22.1 | 22.7 | 23.3 | 23.8 |
| Strategaeth a pholisi | 5.4 | 5.9 | 6.2 | 6.2 | 6.3 |
| Rhedeg y busnes | 32.4 | 35.8 | 32.5 | 31.6 | 36.3 |
| **Cyfanswm gwariant anariannol** | **115.8** | **128.7** | **128.0** | **128.2** | **134.7** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm gwariant** | **280.2** | **289.1** | **276.8** | **280.8** | **287.0** |